YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 2. CHWEFROR, 1925. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD...

CHWEFROR.
ODDIAR Y TWR
MWYNDERAU'R DYDDIAU GYNT.
"A FEDRI DI ROEG?"
JONAH A'R UGEINFED GANRIF.
ANHAWSTERAU ATHRO YSGOL SUL.
HENAINT.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR • YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr. Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur • Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL
A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—
Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

—AIL GASGLIAD O—
EMYNAU A THONAU

. . AT WASANAETH . .

Cymanfa Gerddorol Undodaidd Ceredigion.

Pris 9c., Amlen Bapur. Gellir cael Copiau wedi eu rhwymo mewn Llian—*Cloth Binding, 3s. 6c.*

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1925. [CYF. XXV. RHIF 2.

CHWEFROR.

CHWYTH, aeafwynt, fel y mynnot,—
Cryn fy ffenestr a fy nôr ;
Plyg y deri fel mieri—
Dyro ddawns i longau'r môr ;
Byr yw dydd a dyddiau Chwefror,
Cynt y dêl yr hwyr na'r wawr ;
Chwyth y crynddail hyd y cwmwl,
Chwyth y ceinciau hyd y llawr.

Yn dy rwysg ac yn dy ryddid
Tros y Cnicht a'r Moelwyn chwyth ;
Cadw'r moethus yn ei gaban,
Cadw'r neidr ar ei nyth :
Câr y wennol awel feddal,
Câr y gloyn glaear si,
Caraf finnau'th ruad dithau—
Edn y ddrycin ydwyf fi.

Chwyth, aeafwynt, fel y mynnot,—
Cladd y mynydd dan y lluwch,
Cladd y môr o dan yr ewyn,
Chwyth, aeafwynt, eto'n uwch ;
Ond pe clywit ar ryw dalar,
Oenig cynnar yn rhoi brêf,
Tro oddiwrth y dalar honno,
Paid a chwythu arno ef.

O "*Telynegion Maes a Mor*" EIFION WYN.

ODDIAR Y TWR.

DAW i gwrdd â phregethwr, fel y daw i gwrdd â phob math ar ddyn, brofiadau amrywiol iawn eu natur—melys a chwerw, dymunol ac anymunol, calonogol a siomedigaethus. O edrych yn ol dros fy ngyrfa—gyrfa sydd, bellach, yn ymylu ar fod yn hir—daw i'm cof lawer iawn o brofiadau dymunol. Ni ddaeth i'm rhan lawer o brofiadau annymunol—annymunol iawn, o leiaf. A da gennyf wthio popeth annymunol, hyd y gallaf, mor llwyr i dir angof, fel na welont atgyfodiad. Taflu golwg yn ol at un profiad dymunol a wnaf o'm harsyllfa yn awr.

* * *

Digwyddodd imi yn ystod tymor fy ymweliadau â'r Notais pan oeddwn fyfyriwr yng Nghaerfyrddin. Yn fuan ar ol imi ddechreu ymweld â'r lle, ar derfyn y gwasanaeth hwyrol, a hi yn nyfnder y gaeaf, dywedodd un o'r blaenoriaid wrthyf, "Y mae hen wraig yn byw mewn bwthyn cyfagos a hoffai i chwi roi'r cymun iddi." I mi, peth hollol newydd oedd hyn—profiad na chefais mo'i gyffelyb hyd hynny. Nid oeddwn ond megis ar drothwy'm gyrfa bregethwrol; ac nid oedd yn unol ag urddas y weinidogaeth i grwtyn di-brofiad i ymyrru â'r ordinhadau: dyma'r syniad cyffredin. Eithr, er gwaethaf hyn, ni fedrwn omedd. Felly cychwynasom yn ddioedi—fy hunan, a dau neu dri yn gwmni imi—dim ond dau sydd wedi aros ar fy nghôf—y diweddar Ditus Lloyd, o'r Royal Oak, brawd i'r diweddar Barch. E. W. Lloyd, o Gwmbach, a'r diweddar William Phillips, tad gweinidog presennol y Notais: coffa parchus am y tri—cystal tri phatrwm o Gristion y gellid cwrdd â hwy—tua'r aneddle grybwylledig.

* * *

Y nôs ydoedd; a nôs dywell iawn—dywylled fel na fedrwn gael golwg glir iawn ar yr adeilad a'i amgylchoedd. Daethum yn fwy adnabyddus o'r ddau ar ol hynny—"bwthyn bach tô gwellt," ac arwyddion henaint a dadfeiliad yn amlwg arno; fe ddywedwn i mai ef oedd bwthyn henaf pentref y Notais. O'i gylch yr oedd tai eraill—tai tô gwellt, amryw o honynt, a ddug gyffelyb arwyddion o henaint. Nid oedd y pellter ond ychydig lathenni; ac ni fuom ond ychydig eiliadau cyn dod i ben y daith. Curwyd wrth y drws, a chan na chlywsom neb yn ateb, aethom i mewn i'r gegin—ystafell eang, tebig i ystafelloedd mewn tai o'r un ffasiwn. Nid oedd yno neb i'n croesawu; yr oedd y teulu allan, yn debygol yn un o'r addoldai cyfagos. Tra'n sefyll ar ganol yr aelwyd, clywais lais gwannaidd

yn galw—llais a ddeuai megis o grŷn bellter. I'm cymdeithion yr oedd y llais yn adnabyddus: llais yr hen wraig yn galw arnom i fynd i'w hystafell.

* * *

Awd i mewn i ystafell fechan; ie, ystafell fechan: dim ond prin digon o le i wely bychan, a bwrdd, a chadair neu ddwy i eistedd—nid oedd yno le i ragor. O droi'm golwg tua'r gwely, syrthiodd fy llygaid ar wyneb gwelw, a ddug arwyddion o erwinder y tymhestloedd a fu'n curo arno yn ystod y tymhor hir o bedwar ugain mlynedd; ni chofiaf mo'i hoedran, eithr sicr wyf ei bod yng nghymdogaeth yr adeg pan drŷ'r "nerth" yn "boen a blinder." Yr oedd, hefyd, fel y cefais allan cyn ymadael, yn ddall. Ei henw bedydd oedd Ann; eithr fe'i gelwid gan ei chydnabyddiaeth yn "Bopa Ann." Llygriad yw'r gair "bopa" o'r gair "boba," a olyga modryb; yn ateb i'r gair "ewa," a olyga ewythr. Arferir y ddeuair ym Morgannwg fel geiriau a ddynoda barch neu anwyldeb mawr—o leiaf, yn rhai rhannau o'r sir.

* * *

"Dyma'r gweinidog wedi dod i'ch gweld, Bopa Ann," meddai un o'm cymdeithion. Ac o glywed fy hun yn cael fy nghydnabod fel gweinidog am y tro cyntaf erioed, nid sicr wyf na theimlais fy hun yn chwyddo tipyn yng nghymdogaeth y frest—chwedl y diweddar Ddr. Gomer Lewis. "Dyma'r gweinidog wedi dod i'ch gweld," meddai'm cydymaith eilwaith; ac estynnodd hithau ei llaw imi i mi i afaelyd ynddi; yr hyn a wneuthum. Dywedodd rywbeth wrthyf; ni chofiaf beth—gair o roesaw yn debygol. Disgrifiais ei hwyneb fel wyneb gwelw. Gallaf ei ddisgrifio ymhellach fel wyneb angylaidd. Gwan oedd ei llais; eithr disgynnai ar fy nghlustiau'n felys a melodaidd. Ar ol ychydig ymddyddan, aethpwyd at y gorchwyl y deuthum yno i'w gyflawni. Darllenais bennod; offrymais weddi; darllenais eiriau Paul ar y cymundeb; cyfrennais yr elfennau—i'r cwmni oll; a therfynais drwy'r fendith arferol. Bum yno lawer gwaith ar ol hynny, gyda'r un cyfeillion yn gwmni imi. Weithiau cymrai un o honynt ran yn y gwasanaeth—y weddi fynychaf. A gwledd oedd clywed pob un o'r ddau a enwais eisioes yn gweddio; os bu neb erioed yn medru gweddio gydag eneiniad, yn sicr medrent hwy ill dau wneud hynny.

* * *

Ni pharhai'r gwasanaeth ond ychydig funudau. A'm profiad bob tro oedd, mai da oedd bod yno. Dyna lle y sylweddolais gyntaf wir ystyr dywediad adnabyddus Iesu, "Lle y mae dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw i, yno yr wyf fi yn eu canol." Nid presenol-

deb corfforol, eithr presenoldeb ysbrydol—ysbryd bywyd Iesu yn dod yn rhan o brofiad dyn. Os bu nefoedd erioed ar y ddaear, yn sicr yr oedd yn yr ystafell fechan honno y munudau hynny. Gwir wasanaeth cymundeb oedd y gwasanaeth. A chredaf i "Bopa Ann" dderbyn nerth a chysur i'w henaid o honno wrth neshau o honni at lan yr afon, fod ei ffydd yn y breichiau tragwyddol yn cryfhau oblegid cyfranogi o honni o'r elfennau er cof am gyfaill goreu dyn.

* * *

Ar ol terfynu o'm hymweliadau a'r Notais, collais olwg arni. Pa hyd y bu fyw ar ol hynny ni fedraf ddyweyd. Ond y mae'r darlun a argraffwyd ar fy nghof yn ystod fy ymweliadau â hi wedi aros yn ddilychwin drwy'r blynyddoedd; a darlun dymunol i'r eithaf ydyw. Fel y sylwyd, bu'n orweddog am flynyddoedd, ac yn amddifad o'i golygon: dau beth, ellid tybied, na allant lai na gwneud bywyd yn "flinder." Ac eto, welais i erioed neb o ysbryd mor siriol, o ffydd gadarnach yn ei Thad, o ymddiriedaeth lwyrach yn Iesu fel ei chyfaill goreu, o obaith a oleuai'r dyfodol iddi fel nad ofnai mo honno. Yr wyf, drwy'r blynyddoedd, wedi meddwl yn aml am dani; a daw'r atgof am dani adref ataf fel math ar gerydd pan y'm tueddir i achwyn ar fy nhynged.

* * *

O ba ffynhonnell, tybed, y tarddai ei sirioldeb? O ba ffynhonnell arall ond o ffynnon glir ei bywyd crefyddol? Os nad dyna'r ateb iawn, wn i ddim am un ateb arall. O ffynnon glir ei bywyd crefyddol y tarddai'n "hardd a byw" ei sirioldeb, a'i gobaith, a'i ffydd rhyfeddol yn niwedd ei gyrfa; terfyn bywyd a ellid ei ddisgrifio fel rhyw fachludiad haul gogoneddus.

* * *

Wn i ddim ai priodol disgrifio dernyn o ryddiaeth fel yr uchod yn fugeileg, neu'n arwrgerdd, ai nid priodol bugeileg neu arwrgerdd mewn rhyddiaeth. Tebyg y cyfyngir y termau hyn i fyd y bardd. Boed felly. Eithr sicr wyf y gwnai'r hyn a draethwyd ynghwrs y llith hon destyn bugeileg neu arwrgerdd ardderchog i un o'n beirdd, fel y gwnaeth dau hen gymeriad cyffelyb i "Bopa Ann" destyn cân felys i Grwys yn ei "Gloch y Llan." Yn unrhyw achos, da gennyf wneud ychydig i gadw enw'r hen santes rhag syrthio o honni yn llwyr i dir angof.

SYLWEDYDD.

MWYNDERAU'R DYDDIAU GYNT.

AELWYD Y FFATRI.

[Gan SARNICOL.]

I.

Aelwyd gynnes a chlyd oedd aelwyd y Ffatri. Yr oedd y tân glo mawr bob amser yn llawn croesaw; a phob llestr ar y seld yn disgleirio gan lawenydd pan ddelai cyfaill i'r ty; a deuai yno gyfeillion wrth y degau. Yr oedd bwyd i bawb ar y ford, a gwely'n grâs bob amser i gyfaill o bell. Wedi amser tê, 'roedd y teulu at wasanaeth y cwmni, a'r rhodau nyddu a'r peirianau gwlan yn cael gorffwys hyd drannoeth. 'Roedd pobl y Ffatri yn byw yn gyfforddus iawn; ond gŵyr y neb ar sydd ganddo brofiad nad yw teulu o'r fath byth yn gadael cyfoeth mawr ar eu hol—nid crafu pethau'r byd hwn oedd eu pleser mewn bywyd.

Gwr tal, esgyrnog, tawel, a barf wen a dau lygad ddu, mwyn, caredig oedd John, gŵr y ty; yr oedd y fogfa yn ei flino, ac fel rheol mae calon dda yn preswylio mewn brest wael. Gwrandawr oedd efe, yn taflu ambell i air hanner direidus i mewn yma a thraw, yn dawel bach, rhwng dau besychiad bloesg. Sylwodd rhywun fod ei wyneb yn debig i eiddo Ruskin — yn llawn urddas dwfn a distaw. Nid agorwyd ei lygaid yn llydan ar y byd; ond yr oedd ei weledigaeth yn deg ac yn gyfiawn.

Benyw fitw fach oedd Mali, ei wraig; un fyw a hoyw a heinyf, yn llawn caredigrwydd at bawb, ac yn addoli ei phlant, yn enwedig Dafy ac Ifan, ac Ifan yn fwy enwedig na Dafy. Bachgen dnaidd, teneu, gwelw, oedd Dafy, yn afiach drwy ei oes; bu ei fywyd yn un ymdrech fawr yn erbyn hen elyn plant Ceredigion — y darfodedigaeth. Ar y ford, byddai gan Dafy ryw fwyd neu gyffair arbennig bob amser; yfai goco amser tê, a byddai ei fam yn ofalus ei fod yn cymryd digon o wyau a chodlifer oil. Ac felly, er gwaethaf ei beswch a'i wendid, yr oedd ei fywyd yn bur gysurus a dedwydd. Ac yr oedd yn hoff o lyfrau, ac Eisteddfodau, a chyda phethau'r meddwl yr ymhyfrydai, er mai cyffredin ei alluoedd ydoedd, mor bell ag y gallwn farnu. Bachgen tal, cryf, gwargam oedd Ifan, a dau lygad ddu deallgar direidus; bachgen llawn personoliaeth gref a byw. I'w gymharu a Dafy ei frawd, yr oedd yn gawr mewn corff a meddwl. Ac i Dafy, er mai ef oedd hynaf, nid oedd neb yn yr ardal yn debig i Ifan ei frawd. Pan siaradai Ifan 'roedd Dafy'n glust i gyd, ac edmygedd yn pefrio o'i lygaid. A phan adroddai'r brawd ieuengaf stori'n fwy direidus nag arfer: "Taw sôn, da tithau, paid cellwair bachan," meddai Mali, ei fam, a doniau Ifan yn fwy llawenydd iddi hi na neb o'r cwmni.

Ym mân eisteddfodau'r cylch, enillodd Ifan aml i dorch; efe oedd bardd yr ardal am rai blynyddau. A balch oedd Talgarreg iddo fabwysiadu'r enw Caregian.

Cwmniwr ydoedd heb ei fath, ac yr oedd bywyd yn fwyniant iddo, yn rhinwedd ei gorff a'i ysbryd. Lawer gwaith y bu'r lamp yng nghyn ar aelwyd y Ffatri hyd doriad gwawr. Byddai Dafy wedi mynd i hepian yn y cornel, ac Ifan a minnau, neu rhyw grwydryn tebig, yn dal pen rheswm wrth y tân, ac yn llosgi

pibed ar ol pibed o faco ein gilydd. Symudai'r ymgom yn ysgafn o rianedd y fro heibio barddoniaeth Islwyn i athroniaeth Tomos y Gwehydd, a therfynai naill ai gyda'r stori garu ddiweddaf neu yn nyfnderau dirgelwch rhyddid yr ewyllys. Ac yna aem i gysgu am ddwyawr cyn codi i gael brecwast, a Mali yn holi'n geiriyddgar: "Y brele mawr, boys, pryd eithoch chi i'r gwely neithiwr?" Ond byddai rhyw ateb ysgafn, cellweirus, gan Ifan, fel olew ar ei chythrwfl.

Yr oedd yn y brodyr ysfa ddiwala am wybodaeth—yr ysfa honno sydd wedi gyrru cymfer o gewri o bentrefi Ceredigion i bedwar ban y byd. Pwy neu beth rodd fatsen yn y tân, anodd barnu; mae yng ngwythiennau rhai o blant y fro; ac y mae athro brwdfrydig neu gyfarfod llenyddol poeth yn ddigon i gychwyn y tân ar rosydd yr enaid.

Aml y gwelais Caregian yn codi carreg ar fanc Penthyronwy, ac with sylwi ar y milod a'r chwilod yn ffoi i'w mân ogofeydd yn y pridd, yn gofyn: "Paham a sut mae'r pethau bychain yma wedi dyfod i'r fan hyn? I ba ddiben y crewyd hwy?" Ac edrychai tuag-ataf fi, fel un ag oedd yn astudio Bywydeg ar y pryd, am ateb. Ond och! nis medrwn. A daw i'm cof eto yr adnod honno o'r Efengyl goll: "Tro dy olygon i agen y pren, a thi a'i gweli; edrych dan y garreg, yno y mae Efe."

II.

Erbyn heddiw y mae'r teulu wedi mynd—y cwbl ond un, a hithau'n drist a dinodded.

Torrwyd i lawr Caregian yn ei anterth, pan oedd ei gorff yng ngogoniant ieuenctyd, a'i feddwl yn ymflaguro fel blodau Mai. Daeth twymyn heibio'r pentref, ac ysgubwyd ymaith y teulu llawen, croesawgar. Na feier am hynny Rheolaeth y Nef; anwybodaeth ac esgeulustod dyn sydd wrth waidd poenau'r byd.

Heddyw maent yn gorwedd ym mynwent Pisgah — un yn unig a adawyd, a hithau'n aml yn dyheu am orffwys yn eu hymyl.

Ac weithian, ar ol chwarter canrif, mae rhai o'r hen gymdeithion wedi eu symud am byth—Tomos Green Grove, hael ei galon a difyr ei ddoniau; Winton Evans, a'i feddwl craff a diwylliedig, llenor a gollwyd ar ffyrdd ceimion masnach—dau o fechgyn Talgarreg; gwŷr y buasai'n falch gan unrhyw bentref yng Nghymru o'u hawlio fel ei blant.

Bum ym mhentref Talgarreg am dro rai misoedd yn ol, a mawr y cyfnewid a welwn yno. Mae'r tai bychain, tywyll, yn diflannu, a diolch am hynny. Mae tô newydd o blant gwridgoch, a merched a bechgyn hardd a deallgar, wedi codi yno; ac iddynt hwy nid yw enw teulu'r Ffatri ond rhywbeth annelwig yn nhraddodiad y fro. Cyfarfum a hwynt mewn neuadd hardd ac eang, yn cynnal eisteddfod gyda'r un brwdfrydedd a'u tadau a'u mamau gynt. Yr eisteddfod gyntaf y bum i ynddi erioed oedd yn Stabal y Plas, ac yno y gwelais Garegian yn derbyn rhai o'i wobrwyon cyntaf am farddoni. Bum wedi hynny mewn llawer neuadd urddasol, ond ni chefais byth wedyn yr un mwyniant meddwol ag a gefais y noson honno yng nghyfarfod llenyddol Stabal y Plas. Yno y cyneuwyd y wreichionen fechan farddonol a feddaf fi; yno y cyneuwyd fflam a fu'n goelcerth i oleuo gwlad, oni bai i awelon anhymig angeu ei diffodd am byth. Yr oedd Caregian yn fardd; gwn am lawer cerdd na welodd oleu dydd, a llawer pryddest goeth a lechai yng ngwaelod ei galon; adwaenwn ei enaid gwynias, ond—mae'n gorwedd yn dawel yn y fynwent ar y bryn, heb faen na chofnod ar ei fedd, a bro ei eni yn ei brysur anghofio.

Mae llu o'i gyfeillion eto'n fyw, a thra bo un ar ol ni bydd Caregian farw.

Mae Clettwr o hyd yn rhedeg o

dan bont Talgarreg, lle mae cynifer o'r hen ffryndiau wedi naddu eu henwau ar y meini; mae sibrydion aml i fardd ac aml i gariadlanc nas gwyddai ei fod yn fardd, wedi ymdoddi yn ei sibrydion hithau; a thra rhêd yr hen afon tua'r môr bydd rhai o nodau awen Caregian yng nghymysg a dwndwr pêr ei dyfroedd.

" A FEDRI DI ROEG?"—Actau xxi. 37.

Syr,—Da gennyf weled bod rhai o'r enwadau y dyddiau hyn yn myn'd ati a'u holl egni, ac yn gofyn am fwy o gyfleusterau i ddysgu iaith y Testament Newydd yn ein hysgolion dyddiol, ac y maent yn gwneuthur cymwynas fawr i'n cenedl. Canys yr ydym yn ddiweddar wedi gwrthgilio yn resynus mewn hyn o beth. Y mae'n hen bryd inni symud ymlaen. Oni ddylai mwy ohonom ddysgu darllen y llyfr a gynnwys brif wirioneddau ein ffydd.

Apeliwn am nerth braich gadarn y bobl; atynt hwy y trown; yn eu dwylo hwy y mae awenau llywodraeth yn yr oes hon, hwy sydd yn gyfrifol am yr addysg a roir i'n plant. Gofynned y werin a llais cryf a chroew, gan anfon cais at ei gweision ar fyrddau a chynghorau addysg, a cheir digon o fanteision i ddysgu Groeg yn fuan iawn.

Ond nid ar ei hysgolion dyddiol yn unig y dibynna'n gwlad: llafur cariad yw'r llafur goreu. Mawr yw ein dyled i'r Ysgol Sul a'r Ysgol Nos, ac y mae iddynt eto le pwysig yn y tir, lle pwysicach, feallai, nag a fu erioed. Y mae llu enfawr o Gymry wedi dysgu'r cynganeddion, rai a chymorth llyfr yn unig, eraill dan athro mewn tref a llan. Gall cenedl a fedr lunio englyn ddysgu darllen y Testament Newydd Groeg ond iddi fod yn ddigon gwrol i ddechreu. Ffurfier dosbarthiadau erbyn y gaeaf nesaf. Ceir bron ymhob ardal weinidog neu berson neu athro yn barod ac yn gymwys i arwain a hyfforddi'r disgyblion.

Ar gyfair y rhai'n yr wyf yn paratoi llawlyfr Cymraeg, gan ei arfaethu yn arbennig i Gymry Cymraeg. Bydd ynddo ramadeg a gwersi darllen a chyfieithu, a da iawn fydd gennyf ateb unrhyw gwestiwn a anfonir ataf, gan athro neu ddisgybl, ymha le bynnag y bo. Y mae chwarter y llyfr eisoes yn barod, ac yr wyf yn ei brofi drwy anfon y penodau i wr da a fu mor garedig a chychwyn ar y gwaith o'u hastudio. Ni fedr hwn yr un iaith ond Cymraeg a Saesneg, ac ni chafodd ysgol o gwbl wedi myn'd drwy ysgol elfennol y pentref lawer blwyddyn yn ol.

Byddaf yn ddiolchgar iawn o chaf air gan y rhai a fo'n cymeradwyo'r cynllun ac yn fodlon i'm cefnogi. Cefais eisoes lythyr neu air ar dafod gan nifer go dda. Diolch iddynt o galon am hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

T. Hudson-Williams.

Coleg y Gogledd,
Bangor, Ion. 2, 1925.

JONAH A'R UGEINFED GANRIF.

(Gan y Parch. D. CELLAN EVANS, Northampton).

Pan ar ymweliad a Chymru rai blynyddau yn ol, gofynodd y diweddar Barch. Ddr. John Hunter i hên wraig dduwiol, a ydoedd yn credu mai yn Gymraeg y llefarai Iesu Grist ym Mhalestina yn nyddiau ei gnawd. "Nis gwn," oedd yr ateb, "ond bob tro y bydd yn llefaru wrthyf yn awr, yn Gymraeg y bydd yn gwneyd hyny." Yr oedd yr ateb wrth fodd calon y pregethwr enwog, er ei fod yn *Higher Critic* gwreiddiol. Yr wyf finnau am i Jonah a'i "bysgodyn mawr" draethu ei neges inni yn iaith "Gwyllt Walia." Dim ond un Cymro, mor bell ag y gwn, sydd wedi amcanu gwneyd hyn o fy mlaen, a Dafydd Ifans oedd hwnw—Dafydd Ifans, Ffynon-Henri. Y mae pregeth yr hên batriarch athrylithgar ar Jonah a'i helbulon yn un o'r pethau mwyaf gwreiddiol a dramayddol ddarllenais erioed. Beth bynag ddywedir heddyw am ei chynseiliau diwinyddol, nis gellir amheu na lwyddodd yr hên bregethwr i wneyd Jonah yn Gymro perffaith, ac i siarad wrth y bobl yn eu hiaith eu hunain. Ond er pregethu a phregethu, nid yw gwerinoedd y byd hyd yma wedi derbyn neges Jonah, ond y mae'r hên broffwyd, er wedi marw, yn llefaru eto. Y mae'r byd, i raddau helaeth, wedi colli golwg ar ei wir neges, oherwydd syllu'n ormodol ar y "pysgodyn." Yr wyf yn edmygu sêl yr hên wraig hono, pan ofynwyd iddi a oedd yn credu fod y morfil wedi llyncu Jonah, a atebodd ei bod, a rhagor, pe bai'r Beibl yn dweyd fod Jonah wedi llyncu'r morfil, y credasai hyny hefyd. Yr oedd ei chalon yn drech na'i phen, a da yw hyny weithiau, er nid bob amser. Digon tebyg bod mwy o "bennau mawrion" yn y byd heddyw nag o galonnau mawrion. Os yr ydym yn enill mewn un cyfeiriad, yr ydym yn colli mewn cyfeiriad arall, ac y mae tuhwnt i fy ngallu i ddweyd sut y mae'r *ledger* crefyddol yn sefyll ar ol dwy fil o flynyddoedd o Gristionogaeth. Anhawdd yw mantoli'r *profit and loss*. Y mae mwy o wybodaeth nag a fu erioed, ond y mae llai o ras, yn ol pob argoelion.

Beth bynag, nid ydym eto wedi dysgu ond ychydig o wersi llyfr Jonah, er ein medr i'w ddadansoddi. Math o ddameg neu alegori ydyw, i'n cynorthwyo i gael gafael ar wirionedd pwysig. Y mae'r awdur dwyreiniol bob amser yn farddonol ei natur a'i feddwl, ac nis gellir byth dod o hyd i'w drysorau meddyliol os y darllenir ef yn llythyrennol.

Math o nofel yw Llyfr Jonah—a nofel ddyddorol hefyd—yn delio a gwirionedd oedd yn newydd yn y byd yr adeg hono.

Yr oedd proffwydi Israel yn hoff o siarad am y Cenhedloedd mawrion oeddent yn gorthrymu'r genedl ddewisedig, dan y ffigwr o "forfil" y genedl fawr yn llyncu i fyny y genedl fechan. Dyna wnaeth Jonah, pwy bynag oedd. Mor darawiadol ydyw. Yr Ymherodraeth Fawr yn dwyn tir y genedl fechan, yn ei llyncu i fyny, fel y dywedir ar lafar gwlad; a Duw maes-o-law, ac yng nghwrs amser, yn trefnu pethau fel ag i'r genedl fechan fedru adenill ei rhyddid. Y mae "arwydd y proffwyd Jonah" o bwys i'r byd yn ei sefyllfa bresennol. Y mae gan Jonah oleuni i oleuo traed yr ugeinfed ganrif allan o'r corsydd y mae wedi ymgolli ynddynt. Y gwirionedd cyntaf y mae yn ddysgu yw fod "Duw," yng ngeiriau'r hên emyn, "yn llon'd pob lle, ac yn bresennol ymhob man" Credai pobl yn yr hen amser, a chrêd llawer heddyw, fod Duw yn perthyn i un gymydogaeth, ac i un man neilltuol, ac nad oedd i'w gael y tu allan i'r ffiniau gosodedig. Credid pe gellid myn'd i wlad arall, neu i'r môr, y gellid dianc o'i gra-

fangau, ac osgoi ei orchymynion. Y mae syniad o'r fath yna yn ymddangos yn blentynaidd i ni, ond pe chwiliwch yn fanwl cewch fod ei olion o hyd yn llechu yn ein meddyliau.

Pregethwyd syniad tebyg yn ystod y rhyfel ymhob gwlad. Clywsom fod Duw yn ymladd o blaid Prydain Fawr, tra dywedai'r Caisar mai un o gadfridogion yr Almaen oedd. Cododd brawd o'r Gogledd mewn cwrdd gweddi i diroedd ychydig yn uwch. Cydnabyddai ef fod Duw yn *Germany*, yn ogystal ag ym Mhrydain, ond hawliai y dylai fod yn *neutral* dan yr amgylchiadau. Ond dyna fe, yr un syniad yn hollol geisiai awdur llyfr Jonah yrru allan o'r byd. Nid yw'r proffwydi eto wedi llwyddo yn eu gwaith, ond y mae llawer Jonah erbyn hyn yn traethu'r neges, ac fe ddaw dydd y fuddugoliaeth fawr maes-o-law.

Y mae'r Haul yn tywynu ar y Du a'r Gwyn a'r Melyn. Y mae Duw yn Dduw'r India a'r Affrig, yn ogystal a Phrydain Fawr. Y mae'n Dduw'r Almaenwr a'r Ffrancwr a'r Twrc. Nid Duw cenedl mohono, er y dichon i genedl fod yn genedl fawr a nerthol.

Pan y soniwn am Holl-bresenoldeb Duw, cofiwn edrych tuhwnt i derfynau gwlad a chenedl ac ymerodraeth. Cofiwn stori Jonah. Fe fedr ymerodraethau mawrion lyncu cenhedloedd bychain, ond cofiwn, rywbryd, fe fydd rhaid eu chwydu allan, chwedl yr hen Ffynon-Henri.

Rhaid i'r duw lleol, a'r duw cenedlaethol, gael eu bwrw i lawr, a Duw Dynoliaeth gyfan esgyn gorsedd y byd. Rhaid i'r byd gael syniad newydd am Dduw ; rhaid i'r heresi mai ein "Duw ni" ydyw gael ei di-wreiddio er rhoi lle i'r syniad dyfu mai Duw Pawb yw Efe.

Y mae duwiau lawer yn cael eu haddoli heddyw, fel cynt, a'r mwyaf hyll ohonynt yw'r Duw Cenedlaethol. Y mae hwn yn uchel ei sedd, er fod gwerinoedd Ewrob wedi eu gwaedu hyd at drancedigaeth. Y mae'r wers heb ei dysgu, a'r cyfle newydd o hyd yn cael ei golli.

(*I'w barhau*).

ANAWSTERAU ATHRO YSGOL SUL.

[*Y mae'r ysgrif ganlynol gan y Parch. J. Tywi Jones, Golygydd y "Darian," wedi ei hysgrifennu mewn canlyniad i ofyniad Athro mewn Ysgol Sul, sydd wedi ei daflu i anhawster.*]

Y mae'n athro ar ryw ddwsin o fechgyn o'r deg i'r deuddeg oed a thaflesid ef i benbleth gan rywbeth a ddywedasai'r Athro J. Morgan Jones am rai o'r gwyrthiau yn Ysgol Haf, Pwllheli. Y cwestiwn cyntaf a ofynnai i ni oedd : 'Ai gwell i mi roddi y dosbarth i fyny, gan fod arweinwyr ein colegau yn datgan yn groew mai chwedlau ydyw hanes y gwyrthiau a gyflawnwyd gan Iesu Grist ?'

Na, peidiwch ar un cyfrif a rhoddi eich dosbarth i fyny. Y fraint fwyaf a ddaw i'ch rhan byth yw cael bod yn athro ar 'ddwsin o grots.' Cymhwyswch eich hunan fwy-fwy i fod yn athro da iddynt.

Mae gan yr Athro J. Morgan Jones lyfr bychan, 'Dysgeidiaeth Iesu Grist yn yr Efengylau,' a geir o Lyfrfa'r Annibynwyr. Mynnwch hwnnw ar bob cyfrif. Nid oes dim gwell yn y Gymraeg. Fe'ch cynorthwya i gael gafael dda ar hanfodion crefydd Crist. Yna chwi welwch mai materion dibwys iawn yw llawer o faterion y dadleua rhai mor chwerw yn eu cylch—megis anffaeledigrwydd geiriol y Beibl, dilysrwydd rhai o'r gwyrthiau, athrawiaethau amryw a dieithr, &c. Mae'r pwys a roddir ar gredu llawer o bethau dibwys ac ar gredu pethau anghredadwy yn aml

wedi gwneuthur niwed aruthrol. Nid oes amheuaeth parthed prif ffeithiau bywyd Crist—ei eni, ei fyw, a'i farw. Ac yn y tair Efengyl gyntaf fe gydnabyddir bod gennym gasgliad digonol o'i eiriau. Y mae gennym eto Lyfr yr Actau sy'n cynnwys hanes gwaith disgyblion Iesu Grist ei hun. Cyfrifid Luc gan Syr W. M. Ramsay yn un o'r haneswyr goreu—yn un oedd yn ysgrifennu llawer o bethau na fedrai ond llygad-dyst o honynt eu hysgrifennu.

Y pwnc i chwi ydyw deall enaid dysgeidiaeth Iesu Grist ac arwyddocâd ei fywyd. A gadael o'r neilltu fân bethau na ddylasent erioed fod wedi cael cymaint amlygrwydd, chwi welwch yn ei ddysgeidiaeth syniad swynol a dyrchafedig am Dduw fel Tad, am berthynas dyn â Duw, ac am berthynas dynion a'i gilydd. Nid oes gennym amser na gofod i fanylu, ond chwi welwch fel yr oedd Efengyl gras a chariad yn chwerwi arweinwyr ei oes i'w erbyn. Ni bu'r genedl Iddewig erioed mor grefyddol ag oedd yn oes Iesu Grist, ond yr oedd ei chrefyddolder yn gynnwysedig mewn rhoddi pwys mawr ar bethau dibwys. Y mae llawer o'r un ysbryd i'w weled heddyw. Ni fedrai arweinwyr ei oes ddioddef Iesu Grist am fod Tadolaeth Duw a Brawdoliaeth Dyn yn peryglu eu buddiannau. Yr oedd Ef mewn ystyr wirioneddol iawn yn peryglu diogelwch eu moch.

Dyna'n fyr y weledigaeth nefol sydd yn nysgeidiaeth Iesu Grist fel y'i ceir yn yr Efengylau a'i heffaith ar genhadaeth barchus.

Cedwch y pethau dibwys o'r golwg eto am enyd. Wedi i'r Iesu bregethu gwirioneddau ac egwyddorion ei Deyrnas ac i'r rhwyg ddod yn amlwg rhyngddo ef âg awdurdodau ei genedl, y mae'n angerddol ddiddorol sylwi ar osgo Iesu Grist. Nid dweyd y gwir yn unig y mae. Y mae'n caru'r gwir am ei fod yn caru'r Tad ac yn caru dyn. Nid caru ar air y mae. Y mae'n sefyll with gefn ei wir. Y mae ei adnabyddiaeth o'r Tad y fath fel y gŵyr y gall anturio ar y gwir beth bynnag a gyst hynny iddo. Sylwch ar y geiriau—'Nac ofnwch y rhai sy'n lladd y corff," &c., a llawer o eiriau tebig.

Beth a welwch yn y cwbl hyn? Onid yr arwriaeth aruchelaf? Gresyn bod cymaint o son wedi bod am y Groes fel pe na byddai ond gloddest o waed a chigyddfa baganaidd. Gogoniant y Groes yw arwriaeth yr ufudd-dod hyd angeu. Yn yr ufudddod hwn y ceir adnabyddiaeth o Iesu Grist ac adnabyddiaeth o'r Tad trwyddo Ef.

Unwaith y teimlir swyn yr arwriaeth sydd yn 'fil harddach na thoriad y wawr,' ni flinwn lawer ynghylch dilysrwydd y wyrth hon neu'r digwyddiad arall.

Mae'n fwy na thebig fod hanesion fel yr un am foddi'r moch, a'r rhodio ar y môr wedi eu llunio yn ystod y tymor hir y bu cynnwys yr efengylau ar gof a llafar. Ac yr oedd y rhai a'u lluniodd wedi deall cymeriad Iesu ac osgo ei oes tuag ato'n bur dda. Unwaith y deallwch yr hanfodion, ni flinwch ynghylch mân bethau.

Gadewch i'r dosbarth deimlo bod Iesu a'i ddysgeidiaeth yn bopeth i chwi, ac odid na ddechreua fod yn rhywbeth i'r plant sydd dan eich gofal—yn rhywbeth a afael fwy-fwy yn eu serch a'u dychymyg. Ymgedwch rhag cyflwyno Iesu Grist iddynt, fel rhyw gymeriad neis, benywaidd, goddefol, ac i dosturio wrtho oherwydd yr hyn a ddioddefodd. Nid un felly ydoedd. Un yn gwybod ei feddwl ei hun ydoedd—dyn ifanc dewr ydoedd nad ofnai wg ac na chwenychai ffafr. Teimlai ef dros y gwan a'r diymgeledd, mae'n wir, a charai weled plant bach yn troi o'i gwmpas i geisio ei sylw a chyffyrddiad ei law Y cariad hwn at y gwan a'r diamddiffyn a'r posibilrwydd a welai yn y bywyd ifanc oedd un elfen yng nghadernid ei osgo yn erbyn awdurdodau hunangar ei oes.

Peidiwch a son llawer wrth y plant am Dduwdod Crist, am Drindod, ac am ei allu gwyrthiol. Hynny yw, peidiwch a'i yrru allan o'u byd. Daeth Iesu Grist yn ddyn—yn berffaith ddyn er mwyn datguddio'r

Tad. Gadewch i'r plant gael chwarae teg i weled ei ddynoliaeth ac arwriaeth ei gariad a'i ufudd-dod. Gadewch iddynt gael yr un chwaraeteg ag a gafodd y disgyblion a phlant bach Palestina i weled Iesu yn un ohonynt, ac odid na ddeuant hwythau yn y man i weled 'ei ogoniant Ef, gogoniant megis yr unig anedig oddiwrth y Tad.'

Eto siaradwch yn naturiol a'r plant am Iesu Grist ac am y Beibl, mor naturiol ag ydych yn siarad am bethau cyffredin bywyd. Clywir weithiau ormod o siarad mursen a rhoi rhyw fath ar gysegredigrwydd ar bethau ynglyn â chrefydd a bair i blant feddwl ein bod yn son am ryw fyd disylwedd. Y canlyniad yw y tueddir rhai o'r plant i wrthod ac i ddirmygu'r cwbl, ac eraill o honynt i fynd yn ffug-dduwiol ac yn *prigs*

Peidiwch â gwrando ar y rhai sy'n clebran ac yn ysgriblio am yr athrawiaeth hon neu'r athrawiaeth arall. Gwaith dynion ydyw'r cwbl hyn, a gwaith gwael truenus ydyw llawer o honno ac wedi llusgo mwy o bagan-iaeth i mewn i'n crefydd nag a dybiwn yn aml.

Fe welir y rhai sydd yn geidwaid yr athrawiaeth heddyw yn pleidio rhyfel a chyflafan yfory. Un oedd Iesu Grist a fu'n ffyddlon i ewyllys ei Dad heb ofni'r canlyniadau. Nid athrawiaeth na chredo ydyw Iesu Grist—person byw, y gellir ei adnabod, ei garu a byw iddo ydyw Ef. Y peth sy'n hanfodol o hyd i athraw yw peri iddo Ef o hyd apelio fel dyn ifanc at blant a phobl ifainc, a peri iddynt deimlo y gallant anturio popeth ar ei air heb ofyn y cwestiwn llwfriaid sydd mor boblogaidd y dyddiau hyn—'Beth a ddaw ononom os gwnawn hyn neu arall a ofyn Efe gennym?'

HENAINT.

'Tis well to give honour and glory to Age,
With its lessons of Wisdom and Truth.—*Eliza Cook.*

Pan fo bywyd wedi ei iawn dreulio mae henaint yn colli ychydig y gall yn dda ei hebgor—nerth corfforol, greddfau peiriannol, maintioli yn y crynswth, a'r gwaith a berthyn i'r rhai hyn; ond mae'r doethineb canolog, yr hwn sy'n hen yn amser mabandod yn ifanc yn bedwar ugain oed, a thra yn troi rhwystrau o'r neilldu, mae yn gadael mewn deiliaid dedwydd feddwl doeth a phur. 'Rwyf wedi clywed nad yw'r hwn sy'n caru, ddim 'yn hen yn unrhyw gyfliwr.' 'Rwyf wedi clywed fod athrawiaeth anfarwoldeb yn cael ei chyhoeddi pa bryd bynnag y bo enwdyn yn cael ei lefaru; mae yn glynu wrth ei gyfansoddiad. Mae'r dull ohono hwnt i afael ein synwyrau, ac nid oes yr un sibrwd yn dyfod atom o'r ochr draw; ond mae'r casgliad oddiwrth weithrediadau'r deall, yr ystoriad o wybodaeth, o fedrusrwydd, ar derfyn bywyd sydd ar fin bod yn barod i gael ei eni i'r bywyd hwnt, yn cadarnhau awgrymiadau'r serch a'r teimlad moesol.

Canys oni bydd sylwedd henaint yn bresennol, bydd yr awgrymiadau, pa un ai awgrymiadau Celf neu Natur fyddont, yn ffugiol a gwrthun. Sylwedd henaint yw deall. Pa bryd bynnag y gwna hwnnw ei ymddangosiad fe'i galwn ef yn hen. Os edrychwn i lygaid yr ifancaf, cawn weithiau fod yma un a wyr

eisoes yr hyn y byddech chwi gyda llawer o drafferth ar fynd i'w ddysgu, a'r peth hwnnw ynddo yw cyndad yr oll o'i amgylch. Mynegir y ffaith honno yn Vedas yr India yn y geiriau hyn :—'Yr hwn a fedr wahaniaethu, mae yn dad i'w dad.' Ac yn hen chwedloniaeth y Prydeinwyr ynghylch Arthur a'r Ford Gron, ceir ei gyfaill a'i gynghorwr, Myrddin Ddoeth, yn faban mewn basged ar lan yr afon, er nad oedd ond ryw ychydig ddyddiau mewn oed, yn llefaru yn groyw wrth y rhai a'i darganfyddodd, ac yn adrodd ei enw a'i hanes, ac yn y man yn rhagddweyd tynged yr hwn sy'n edrych arno. Lle bynnag y mae gallu, yno y mae henaint. Na thwyller chwi gan y gwallt cyrliog a'r croen crychiog. 'Rwy'n dweyd wrthych, mae'r baban yna yn fil oed. Mae'r llygad ardderchocaf a wnaeth Natur erioed wedi ei dywyllu — y llygad welodd fwy na phawb a aeth o'i flaen, ac a agora lygaid pawb a ddaw ar ei ol; llygad Newton, yr hwn a wnaeth y darganfyddiad pwysicaf pan yn 85 oed; llygad Bacon, yr hwn a gymrodd bob gwybodaeth yn faes ei fyfyrdodau; llygad Fonterelle, y cawg addurn ardderchog sydd wedi ei osod yng nghanolbarth Ffrainc i'w gadw gyda phob gofal am gan' mlynedd; Franklin, Jefferson, Adams, gwladweinwyr doeth; Washington, y dinesydd perffaith; Wellington, y milwr perffaith; Goethe, y bardd holl-wybodol; a Humboldt, gwyddoniadur gwyddor.

EMERSON.

PRIODASAU.

RHAGFYR 27, yng Nghapelybryn, gan y Parch. L. Williams, a cher bron Mr. D. Evans, cofrestrydd, Llanybyther, unwyd mewn glân briodas Mr. David Thomas Davies, mab Mr. David Davies a Mrs. M. A. Davies, Penlanganol, Cwrtnewydd, â Miss Lizzie Jones, merch y diweddar Samuel Jones ac Elizabeth Jones, Felin Bele, Pencader. Yn ddymunol y byddo eu hamgylchiadau.

AR y 14eg o Ionawr, yng Nghapel Cribyn, gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle, Mr. Thomas Elias Lewis, Glanbran, Llansamlet, mab Mr. a Mrs. Lewis, Penlan, Llanarth, â Miss Margaretta Jones, merch Mr. a Mrs. Jones, Frongelyn, Cribyn. Pob llwyddiant a dedwyddwch i'r ddau.

IONAWR 17, yn Eglwys Mydrim, gan y Parchn. E. Thomas, ficer Mydrim; T. O. Evans, ficer Llanwinio, a T. O. Morris, ficer Clydach, Mr. John Davies, mab y diweddar Mr. a Mrs. Owen Davies, Bwlchog, Llanfihangel-ar-Arth, *cashier* yn Lloyds Bank, Clydach, â Miss Margaret A. Williams, Vicarage, Mydrim, merch y diweddar Mr. John Williams a Mrs. Williams, Deri House, Eglwyswrw. Eiddunwn bob llwyddiant i'r pâr ieuanc.

MARWGOFION.

HYDREF 31, 1924, yn 5 mlwydd oed, bu farw Willie, mab Mr. a Mrs. Edwards, Coedeiddig Fawr, Pencarreg. Yr oedd yn dychwelyd o'r ysgol yn iach a llon, ac yn unol ag ysbryd nwyfus plentyn chwiliodd am ei dad yn yr ysgubor. Rywsut aeth i afael y werthyd, a chafodd glwyfau angeuol, ac ymhen ychydig oriau bu farw, gan adael tad a mam, brodyr a chwiorydd, mewn galar. Claddwyd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, gyda chynorthwy parod y Parch. Daniel Jones, Noddfa.

RHAGFYR 2, 1924, bu farw Llewelyn Davies, 18, Madaline Street, Pentre, Rhondda, yn 60 oed; priod Mrs. Davies ydyw un o aelodau henaf a ffyddlonaf Eglwys Glanrhondda, Pentre. Er iddo nychu am rai misoedd, daeth y diwedd yn dra sydyn. Claddwyd yn Mynwent Gyhoeddus, Treorci, dydd Sadwrn, Rhagfyr 6. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs. Davies a'r teulu yn eu hiraeth a'u gofid.

RHAGFYR 24, 1924, yn 70 mlwydd oed, Hannah Thomas, Cledlyn Side, Cwrtnewydd, gweddw y diweddar David Thomas, Ysgolfeistr, Glanduar, Llanybyther. Bu yn wael ei hiechyd am hir amser. Collodd ei phriod er's llawer o flynyddau, a phan yr oedd ei hunig ferch yn ieuanc iawn. Yn Cwrtnewydd y cafodd ei dwyn i fyny, a dychwelodd i fyw yno ar ol marwolaeth ei phriod. Bu yn llafurus ac ymdrechgar ar hyd ei hoes, ac er iddi golli ei chymar yn gynar, llwyddodd i wneud ei hamgylchiadau yn ddymunol. Yr oedd yn aelod o Eglwys Capelybryn. Yr oedd yn nodedig am ei hysbryd siriol a'i theimlad boddlon; parai hynny fod ei bywyd hi a'i merch yn un dedwydd iawn. Naturiol felly ydyw fod yna hiraeth mawr yn cael ei deimlo ar ei hol. Caffed y ferch nerth i ymostwng o dan yr amgylchiad, ac i alaru fel un yn credu yn naioni ei Thad yn y nef. Claddwyd ym mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parch. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Gadawodd ar ei hol mewn galar, heblaw y ferch, lysfab, un chwaer, brawd-yng-nghyfraith, neiaint, ynghyd a pherthynasau eraill.

BLIN gennym gofnodi marwolaeth William Hopkins, 8, Dare Road, Cwmdâr, Aberdâr, yn 58 oed. Bu farw dydd Iau, Ionawr 1, 1925, a chladdwyd yn y Fynwent Gyhoeddus, dydd Llun, Ionawr 5. Bu'n aelod o'r Hen Dy Cwrdd am flynyddoedd, a bu'n ffyddlon i'r achos tra parhaodd ei iechyd. Ni fu ei iechyd y fath oreu am fisoedd lawer, a dioddefodd boenau mawr yr wythnosau diweddaf. Ceir colled fawr ar ei ol yn y symudiadau dyngarol a lleol, ac ni fu neb yn barotach i roi help llaw pan fyddai angen. Daeth torf fawr o gyfeillion ynghyd i'r angladd, ac ymhlith y perthynasau gwelwyd y Parch. D. G. Rees, Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. Jones (B.); W. Powell (M.C.), ac E. R. Dennis. Dymunwn pob cysur a chymorth i'r weddw a'r teulu yn eu trallod a'u hiraeth.

IONAWR 1, 1925, yn 51 mlwydd oed, Mrs. Rachel Jones, annwyl briod Mr. Tom Jones, Laura House, Pontwelly, Llandyssul. Ni chafodd yr ymadawedig ond cystudd byr iawn, a bu ei symudiad annisgwyliadwy yn achos chwithdod mawr i'w theulu a'i chymdogion. Gwraig a mam ymroddgar ydoedd Mrs. Jones—gweithiodd yn galed, bu iddi

bryder a thristwch a galar, a diau fod hyn wedi byrhau ei dyddiau ar y ddaear. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys y Graig, lle y gwelir ei heisiau, ond yn y cartref y gwelir ei heisiau fwyaf. Gadawodd mewn galar o'i cholli briod, mab, tair merch, tad a mam, a pherthynasau ereill. Y dydd Llun dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol ohoni ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. John Davies, ficer Llangeler, ac R. Morris, Penybont.

Ionawr 10, 1925, yn 69 mlwydd oed, Mrs. Sarah Parry, annwyl briod Mr. Thomas Parry, 3, Clettwr Terrace, Pontsian. Cafodd yr ymadawedig gystudd hir a phoenus, a dioddefodd y cyfan yn amyneddgar. Yr oedd yn un o aelodau henaf Eglwys Pantdefaid, a chyrchai yno'n gyson cyhyd ag y caniataodd ei hiechyd. Dygai yn ol ei gallu fawr sel dros yr achos. Buasai bob amser yn barod i gynorthwyo gyda'r rhannau hynny lle yr oedd eu gwasanaeth yn gymeradwy a derbyniol. Y dydd Mercher dilynol gosodwyd y rhan farwol ohoni ym mynwent Pantdefaid. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch E. O. Jenkins. Gadawodd briod a dau o blant i alaru eu colled o'i cholli. Nodded y nef fyddo drostynt.

Ionawr 9, 1925, ar ol cystudd byr, Sarah Jane, anwyl briod J. R. Thomas, C.M., Glyn, Talgarreg, Ceredigion, yn 60 oed. Nid oedd o gyfansoddiad cryf; er hynny, ni feddyliodd neb y ca'i ei galw mor gynnar a sydyn. Merch ydoedd i'r diweddar Barch. David William Jones, M.C., a'i briod, Penuwch, a hawdd oedd deall with ei siarad iddi gael ei dwyn i fyny ar aelwyd grefyddol, ac fod gan grefydd a phethau crefyddol afael gref arni. Wedi ymbriodi ac ymadael â'r hen nyth ym Mhenuwch, bu yn byw am flynyddoedd gyda'i phriod, ym Mhontsian; ond tua phedair mlynedd yn ol, pan roddodd Mr. Thomas ofal yr ysgol yn y lle hwnnw i fyny, aethant i fyw i Glyn, Talgarreg, hen gartref mam a chwaer Mr. Thomas. Yn y ddwy ardal enillodd Mrs. Thomas, drwy ei sirioldeb, ei charedigrwydd, a'i diniweidrwydd, barch ac edmygedd llu mawr o gyfeillion. Deallwn ei bod yn fawr ei pharch ac yn annwyl gan lawer yn ardal Penuwch hefyd. Yr oedd Mrs. Thomas yn fenyw o yspryd eangfrydig iawn. Er wedi ei dwyn i fyny ar aelwyd Fethodistaidd ac ym mysg Methodistiaid Calfinaidd, gwnaeth ei chartref ym Mwlchyfadfa yn hollol naturiol a diddig, a chredwn mai eangfrydedd ei hyspryd oedd yn cyfrif am hynny; y pwnc mawr yn ol ei barn hi yw ceisio byw yn dda a gwneud a allom o ddaioni yn ein dydd. Yr oedd o anian garedig, a gwnaeth lu o gymwynasau distaw. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhai sydd yn wylo ei cholli—y chwaer, brawd-yng-nghyfraith a'r nithod, ond yn benaf a'r priod sydd erbyn hyn wedi ei adael yn bur unig; ein gweddi yw ar iddo gael nerth yn ol y dydd. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Bwlchyfadfa, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a T. Arthur Thomas.

"Cawn gwrddyd yn y nef."

Collodd Eglwys Craig-y-Fargod ei hawl i'r Capel oherwydd peidio talu'r *ground-rent* o geiniog y flwyddyn.

Dywed Horne Zooke i Ddiwygiad Mawr Luther ymwrthod a'r Purdan *(Purgatory)* a chadw Uffern.

MANION AC HANESION.

GRAIG, LLANDYSUL.—Dydd Calan cynhaliodd yr Ysgol Sul ei Gwyl Dê a'r Cyngherdd Blynyddol. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. a Mrs. Jenkin S. Davies, Cilgwyn Hotel. Daeth aelodau'r Ysgol Sul a'r gynnulleidfa ynghyd i gyfranogi o'r danteithion blasus, ac i ddangos eu gwerthfawrogiad a'u parch i'r pâr ieuanc am eu caredigrwydd a'u haelioni. Yn yr hwyr cafwyd Cyngherdd llwyddianus iawn. Cymerwyd rhan ynddo gan aelodau'r Ysgol Sul, a choronwyd eu hymdrechion gan lwyddiant anarferol, a gwnaed elw sylweddol iawn. Ewch rhagoch.

CAPELYGROES.—Ar yr ail Sul o Ionawr, cyflwynwyd gwobrwyon i'r plant am gadw'r Ysgol Sul yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn 1924. Rhoddwyd y gwobrwyon gan Mr. John Evans, Baily. Dyma'r ail waith iddo roddi gwobrwyon. Diolch yn fawr iddo am ei garedigrwydd.

CAPEL CILIAU AERON. — Fel olynydd i'r diweddar Thomas Evans, Parc, y mae'r Eglwys uchod wedi dewis Mr. Timothy Jonathan, Hampton House, yn ysgrifenydd. Dymunwn iddo oes faith ei ragflaenydd i barhau yn ngwasanaeth yr achos yn y dyfodol, fel ag y mae yn barod wedi gwneyd yn y gorphenol.

Nos Fawrth, Tachwedd 11, 1924, bu cyfarfod dadorchuddio'r Rhestr Anrhydeddus (Roll of Honour) perthynol i'r Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Cafwyd gwasanaeth syml i ddechreu, canu emyn, darllen a gweddi, ac araith fyr gan y gweinidog. Ar ol hynny galwyd ar Mrs. Llewelyn, Y Bwllfa, yn absenoldeb anorfod ei mab, Syr D. R. Llewelyn, i ddadorchuddio'r darlun, ar yr hwn y ceir enwau'r bechgyn, a chafwyd araith fyr a phwrpasol iawn ganddi. Siaradodd nifer o'r bechgyn ieuainc, Mri. T. J. Lewis, Edgar Williams, J. Emyn Davies, a D. W. Davies, i ddiolch i'r Eglwys am ei charedigrwydd iddynt tra yn y rhyfel. Cafwyd geiriau cysurus a chalonogol gan Mri. Gwilym Rees, M.E., T. George Morgans, a Mrs. John Davies. Ar ol ŷ gwasanaeth yn y capel, cynhaliwyd te a chyngherdd yn y Festri, dan lywyddiaeth Mr. D. R. Davies. Cymerwyd rhan yn y cyngherdd gan Mrs. Edgar Williams, Mri. W. J. Jones, W. Evans, Lewis Lewis, a W. Templeman. Ni fu pob Eglwys mor ffortunus a'r Hen Dy Cwrdd, oherwydd daeth pob un o'i bechgyn a ymunodd a'r fyddin yn ol yn fyw ac yn ddianaf. Gwnawd cyfeiriad tyner at y diweddar Richard Jones, Oxford Street, sydd a'i enw ar y rhestr, a fu farw ychydig fisoedd cyn y dadorchuddio. Cafwyd gwasanaeth y cofir am dano, a saif y darlun ar fur y capel i'n hadgoffa o'r aberth a fu ar ein rhan.

Y GRAIG A GELLIONEN. — Yn Ysgoldy y Graig nos Iau, Tachwedd 13, 1924, rhoddwyd darlith gan y Parch. W. R. Bowen, Glais, ar "Ei Daith drwy'r Balkans." Ni ymyrrodd y darlithydd ag agwedd unionglrchol y rhyfel, a chanmolid ef am ei chwaeth. Yr oedd yn ddarlith fyw, ffraeth, yn gynhwysfawr o adloniant iach. Llywyddodd Mr. John Hopkin.——Eto, yn yr un lle, nos Iau, Rhagfyr 4, cyfarfod adloniadol a chystadleuol, dan arweiniad Mr. Hopkin Jones. Cyfeiliwyd gan Mri. H. J. Thomas, Haydn Morgan, a W. J. Bowen. Beirniaid : Llen, Mr. David Davies, Maesyderi ; Cerdd, Mr. David H. Morgan. Teimlwyd fod rhyw gymaint yn rhagor o'r gwres a'r brwdfrydedd yn y cwrdd hwn, ag yr arferid ei gael flwyddi'n ol. Y mae rhamant

lawer o weled talent yn ymgais a gwaredu ei hun o'r rhwd a lyn wrthi,—ac o hyn y blagura dau flodau clysion—diddordeb ac adeiladaeth. Gobeithiwn mai blaenffrwyth ydyw hyn i bethau mwy. Yn wir, meddaf i chwi, rhagorol! ——Eto, yn yr un lle nos Iau, Rhag. 11, traddododd y Parch. Albert Jones, B.A., Clydach, ddarlith ddyddorol iawn ar y testyn, "Fy Mywyd fel Myfyriwr," i gynhulliad da. Llywyddiaeth y cyfarfod tan ofal deheuig Mr. J. J. Williams, Trebanos.

"ANLWC RHYS."

Gwelais o'n mynd
Hefo'i enwair hir;
Ac yn ei fasged
Gryn bwys o bryfed,
O'r tail ac o'r tir.

Ddaliodd o ddim
Er bod wrthi bum awr;
Ond mi gollodd *un*
A hwnnw'n un mawr.

A dyma fel bu,—
Pan fwriodd ei bry
Wrth geg ffos y felin,
Dan fôn draenen ddu.

Dyna blwc! dyna ddau!
A'r lein yn tynhau;
Ahai! dyna lafn o bysgodyn gwyn!
Ar flaen yr edefyn yn llamu o'r llyn.

Medd Rhys, 'Dyma fo,
Deunydd tri phryd!'
A daliai arno,
Dan grynu, a theimlo
Yn chwys i gyd!

Ond clywsoch, mi wn,
Fod anlwc weithiau
O'r llaw i'r genau,
Ac felly'r tro hwn.

Crynhôdd y gwyniedyn
Ei nerth yn sydyn;
Rhoes naid a thro,
Ac i ffwrdd ag o,
Hefo'r abwyd a'r gêr!
Ac medd Rhys, 'Dyna dro!'

Wedi'r holl drafferth,
A'r chwennych a'r chwys,
Dim ond basged *wag*—
Wel, druan o Rhys!

EIFION WYN.

HEN ADGOFION.

Myrdd o hen adgofion melys
Sy'n ymrithio ger fy mron,
Fel y cyd-chwareuwn inau
Gyda llu o'm cyfoed llon;
Diniweidrwydd yn gerfiedig
Ar ein hysgogiadau ni—
Byd a'i groesau yn ddieithr—
O mor ddedwydd oeddwn i!

Cynnal cyngherdd bach y byddem
Gyda'r nos yng ngoleu sêr,
A'n plentynaidd leisiau tyner
Yn cyd-ganu'n hodlau pêr
Fyddai yn gwefreiddio'r ardal
Fel rhyw fiwsig ar eu clyw;
Os ffarweliodd oriau mebyd,
Mae'r adgofion eto'n fyw!

DEINIOL DDU.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, . . . LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.